PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2024

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) **(Yn y Siambr)**

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	M. Donoghue
J.K. Howell	A.C. Jones	B.D.J. Phillips	E. Skinner
R. Sparks	G.B. Thomas	M. Thomas	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	M.J.A. Lewis	A. Leyshon	D.E. Williams
S. Williams			

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd Hazel Evans mewn perthynas â chais cynllunio PL/02235 (Yn rhithwir)

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
L. Davies, Cyfieithydd ar y Pryd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 10:00yb – 11:25yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:-

PL/02235	**Un breswylfa newydd ar lain ger Gelli Rhifan, Rhos, Llandysul, SA44 5EE** Cafwyd sylwadau gan yr Aelodau Lleol a oedd yn cefnogi'r cais ac yn ailbwysleisio'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys: Byddai'r datblygiad yn:- • diwallu anghenion y teulu • cefnogi teulu sy'n dymuno aros yn yr ardal • cefnogi'r ysgol leol Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 7 Mehefin, 2024.

Mewn ymateb i sylw a gafwyd ynghylch y ffaith fod nifer yr apeliadau sy'n weddill yn cynyddu bob tro y cânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor, eglurodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi fod mwy o geisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ac felly roedd mwy o benderfyniadau ar apeliadau'n cael eu gwneud o ganlyniad.

Nodwyd bod ôl-groniad yr apeliadau yn yr adroddiad wedi cael eu cyflwyno i PEDW sef Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gychwyn ar y broses apelio. Yn dilyn hyn mynegwyd siom oherwydd y rheswm o bosibl dros y cynnydd yn nifer yr apeliadau yr adroddwyd amdanynt oedd PEDW. Ailadroddodd yr Uwch-swyddog Rheoli a Gorfodi fod mwy o apeliadau'n cael eu derbyn ac eglurodd fod pob achos yn cael ei bennu ar ei rinweddau ei hun gyda rhai yn fwy cymhleth nag eraill.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

5.1. 23 MAI 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 23 Mai, 2024 gan eu bod yn gywir.

5.2. 4 MEHEFIN 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 4 Mehefin:, 2024 gan eu bod yn gywir.

_____	_____
CADEIRYDD	**DYDDIAD**